**RHYBUDD o Benderfyniadau'r cyfarfod hybrid o Gyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd ar 25 Medi, 2025**

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol**: | Y Cynghorydd Non Dafydd (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Jeff M Evans, Neville Evans, Douglas M Fowlie, Glyn Haynes, Kenneth Hughes, T Ll Hughes MBE, Carwyn Jones, John Ifan Jones, R Ll Jones, A M Jones, G O Jones, Dyfed Wyn Jones, Jackie Lewis, Pip O'Neill, Llio Angharad Owen (gadawodd y cyfarfod am 3.00 pm a dychwelodd am 3.25 pm), Derek Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Ieuan Williams, Robin Williams, Sonia Williams a Liz Wood |
| **Ymddiheuriadau**: | Y Cynghorwyr Paul Ellis, Euryn Morris, Alwen Pennant Watkin a Arfon Wyn |
| **Hefyd yn bresennol** : | Mr Dilwyn Evans – Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (mewn perthynas ag eitem 10),<br><br>Mr Trefor Owen – Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (mewn perthynas ag eitem 9) |

| RHIF YR EITEM AR PWNC | **1. Cofnodion** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol Cyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd ar 20 Mai, 2025 yn gywir. |

| RHIF YR EITEM AR PWNC | **2. Datganiad o Ddiddordeb** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb. |

| RHIF YR EITEM AR PWNC | **4. Cyflwyno Deisebau** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Ni dderbyniwyd unrhyw ddeisebau. |

| RHIF YR EITEM AR PWNC | **5. Rhybudd o Gynnig** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Fferm Solar, Alaw Môn**<br><br>**Yn dilyn Pleidlais a Gofnodwyd:** |

| | |
|---|---|
| | **PENDERFYNWYD: -**<br><br>• **Bod y Cyngor yn mynegi ei siom a'i rwystredigaeth ynghylch penderfyniad Llywodraeth Cymru i ganiatáu datblygiad Fferm Solar Alaw Môn yn groes i'w polisïau ar ddefnydd o diroedd amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas;**<br>• **Bod y datblygiad arfaethedig wedi achosi llawer o bryder yn ein cymunedau yn ogystal â chreu pryderon gwirioneddol ynghylch diogelwch bwyd yn y dyfodol;**<br>• **Gofynnir i'r Cyngor ymchwilio i bob opsiwn posibl, gan gynnwys ceisio Adolygiad Barnwrol, i herio'r penderfyniad hwn yn ogystal â cheisio gweithio ochr yn ochr â Grwpiau Cymunedol eraill sy'n gweithio tuag at nod tebyg;**<br>• **Os nad yw penderfyniad y Cyngor i fwrw ymlaen ag Adolygiad Barnwrol, bydd y Cyngor, mewn egwyddor, yn ystyried rhoi cyfraniad ariannol i Grŵp Tir Môn, yn amodol ar ymgynghori â'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddfa Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM AR PWNC | **6. Adolygiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024/25** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo Adolygiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2024/2025.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM AR PWNC | **7. Hunanasesiad ac Adrodd ar Berfformiad** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD yn unfrydol i:-**<br><br>• **gymeradwyo'r newidiadau cyfansoddiadol sy'n ofynnol i adlewyrchu'r bwriad i gyfuno'r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol a'r Adroddiad Perfformiad (Llesiant) Blynyddol yn un ddogfen integredig dan y teitl Adroddiad Hunanasesu a Pherfformiad (Llesiant) Blynyddol;** |

| | |
|---|---|
| | • **cymeradwyo'r newidiadau i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu y bydd yr adroddiad cyfunol y cyfeirir ato uchod yn un o swyddogaethau'r Pwyllgor Gwaith;**<br>• **awdurdodi'r Swyddog Monitro i wneud y newidiadau cyfansoddiadol sy'n ofynnol i weithredu'r uchod.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM AR PWNC | **8. Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2024/25** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol 2024/2025.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM AR PWNC | **9. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2024/2025** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD yn unfrydol i:-**<br><br>• **Gymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2024/2025;**<br>• **Cymeradwyo Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2025/2026, gan dderbyn y gellir cynnwys rhai materion ychwanegol, yn unol â'r galw.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM AR PWNC | **10. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2024-25 – Adroddiad y Cadeirydd** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2024/2025.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM AR PWNC | **11. Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD mabwysiadu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ym mis Gorffennaf 2025.** |